# Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen CRM16

Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae'r canllawiau hyn a'r ffurflen y cyfeirir ati ynddynt ar gael yn Saesneg.

**Pryd mae defnyddio'r ffurflen hon**

Os ydych chi wedi gwneud cais am Gymorth Cyfreithiol mewn Achosion Troseddol a ninnau wedi penderfynu:

- bod gennych ddigon o incwm i dalu'n breifat yn y llys ynadon (**caledi yn y llys ynadon**); neu
- bod gennych ddigon o incwm i dalu'n breifat yn Llys y Goron (**adolygiad cymhwysedd Llys y Goron**); neu
- bod gennych ddigon o incwm i dalu tuag at gostau eich cymorth cyfreithiol yn Llys y Goron (**caledi yn Llys y Goron)**

**neu** os ydych chi'n gwneud cais am gymorth cyfreithiol ac yn disgwyl clywed bod gennych ddigon o arian i dalu'n breifat neu y bydd yn rhaid i chi dalu costau eich cymorth cyfreithiol

**ac** os nad ydych chi a'ch partner yn gallu talu'r gost heb ddioddef caledi ariannol,

defnyddiwch y ffurflen hon i ofyn i ni adolygu ein penderfyniad.

**Pryd mae peidio â defnyddio'r ffurflen hon**

Os ydy'ch amgylchiadau ariannol wedi newid ers i chi wneud cais am gymorth cyfreithiol, fel nad ydych chi'n gallu fforddio talu tuag at gostau eich cymorth cyfreithiol yn awr, peidiwch â defnyddio'r ffurflen hon. Er enghraifft, efallai eich bod chi a'ch partner wedi gwahanu, neu efallai fod eich oriau gwaith wedi cael eu cwtogi. Os ydy'ch sefyllfa ariannol wedi newid fel hyn, llenwch ffurflen CRM14 a/neu CRM15 arall a gofyn i ni ailasesu eich cais.

Os yw cymorth cyfreithiol wedi'i wrthod i chi ar gyfer treial yn Llys y Goron, a'ch amgylchiadau wedi newid bydd angen ichi gyflwyno Cais Newydd yn dilyn Anghymhwysedd. Gan fod hwn yn gais newydd sbon bydd angen CRM14 newydd hefyd, hyd yn oed lle rydych yn darparu eich holl fanylion ariannol ar ffurflen CRM15.

Os yw cymorth cyfreithiol wedi'i wrthod i chi ar gyfer treial yn Llys y Goron a chithau heb gyflwyno cais am Adolygiad Cymhwysedd cyn pen 21 diwrnod i gael eich gwrthod, bydd yn rhaid ichi hefyd gyflwyno Cais Newydd yn dilyn Anghymhwysedd gyda'ch ffurflen CRM16.

Os nad ydych chi'n siŵr a ddylech chi ddefnyddio'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch cyfreithiwr.

**Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen**

- Os oes arnoch angen help neu gyngor arnoch chi i lenwi'r ffurflen neu wrth i

 Hawlfraint y Goron 2014

chi ddefnyddio’r canllawiau hyn, cysyllltwch â’ch cyfreithiwr.

**Mae rhagor o wybodaeth am adolygiadau caledi yn y Llawlyfr Cymorth Cyfreithiol mewn Achosion Troseddol yn:**

www.justice.gov.uk/legal-aid/assess-your-clients-eligibility/crime-eligibility

- Llenwch y ffurflen hon gan gadw at y canllawiau o dan ‘Pan fyddwch yn llenwi’r ffurflen’ ar dudalennau 1 a 2 y canllawiau ar gyfer ffurflen CRM14, sydd ar gael ar y wefan Cyfiawnder yn.

www.justice.gov.uk/forms/legal-aid-agency/criminal-forms/applications

**Ar ôl i chi lenwi’r ffurflen hon**

Anfonwch y ffurflen hon at y llys ynadon a ddeliodd, neu a fydd yn delio â’ch cais am gymorth cyfreithiol. Cyn y gallwn ei phrosesu:

- Mae arnom angen ffurflenni CRM14 a CRM15 yr ydych wedi’u llenwi (ac, os ydych chi wedi llenwi un, ffurflen CRM15C). Os ydych chi wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol yn barod, bydd y ffurflenni gan y llys a bydd yn cyfeirio’ch cais at yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gyda’r CRM16 er mwyn iddynt ystyried eich cais.
- Hefyd mae’n rhaid i chi ddarparu’r dystiolaeth yr ydym yn gofyn amdani yng nghwestiynau 2, 3 a 4.

**Diogelu data**

Mae’r wybodaeth am ddiogelu data yng nghwestiwn 32 ar CRM14, ac yn y canllawiau ar gyfer y cwestiwn hwnnw, yn cynnwys y ffurflen hon a’r ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

---

| Cwestiwn | | Canllawiau a gofynion Tystiolaeth ar gyfer y cwestiynau |
|---|---|---|
| 1 | CANLLAWIAU | Mae’r cyfeirnod MAAT i’w weld ar bob gohebiaeth sydd wedi’i hanfon atoch chi (wrth i chi wneud cais am Gymorth Cyfreithiol) naill ai gan y llys, y Timau Llysoedd Cenedlaethol neu Rossendales.<br><br>Dywedwch wrthym ar gyfer beth y mae eich cais drwy dicio’r blwch perthnasol:<br><br>**Adolygiad Caledi yn y Llys Ynadon**<br>Os yw cymorth cyfreithiol wedi’i wrthod i chi ar gyfer achos yn y llys ynadon, a chithau’n credu nad oes gennych ddigon o incwm i dalu’n breifat heb ddioddef caledi ariannol, dylech dicio'r blwch wrth ymyl “Llys Ynadon”.<br><br>**Adolygiad Caledi yn Llys y Goron**<br>Os gofynnwyd i chi dalu cyfraniad o incwm ar gyfer eich achos yn Llys y Goron, a chithau’n credu nad oes gennych ddigon o incwm i dalu’r swm yr aseswyd y dylech ei dalu heb ddioddef caledi ariannol, dylech dicio’r blwch wrth ymyl “Llys y Goron lle aseswyd cyfraniad incwm”<br><br>**Adolygiad Cymhwysedd yn Llys y Goron**<br>Os yw cymorth cyfreithiol wedi’i wrthod i chi ar gyfer achos yn Llys y Goron, a chithau’n credu nad oes gennych ddigon o incwm i dalu’n breifat, dylech dicio'r blwch wrth ymyl “Llys y Goron lle gwrthodwyd y cymorth cyfreithiol”. |
| 2 | CANLLAWIAU | **Incwm** |

Cewch ateb gwestiynau 2 a 3 (os oes incwm wedi'i wrthod i chi, a chithau wedi dweud wrthym am yr incwm hwnnw ar ffurflen CRM15 a/neu os oes gennych dreuliau (*outgoings*) ychwanegol i'r rheini y gofynnon i chi amdanynt ar ffurflen CRM15).

TYSTIOLAETH Mae'n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos yr incwm nad ydych chi wedi'i dderbyn yn ystod y 12 mis diwethaf. Gallai hwn er enghraifft fod yn llythyr gan eich cyflogwr yn manylu ar y cyflog sydd wedi cael ei stopio neu ei ostwng.

3 CANLLAWIAU **Treuliau (*outgoings*)**

Fel rheol bydd y rhain yn dreuliau yr oeddech wedi'u hysgwyddo cyn i chi wneud cais am Gymorth Cyfreithiol ac na chawsant eu cynnwys yn eich asesiad modd.

**Nid yw costau fel cytundebau ffôn, sigaréts, yswiriant, bwyd, dillad neu ddiodydd alcoholig yn gostau y byddwn yn eu caniatáu o dan yr adolygiad.**

**Taliadau dŵr, nwy a thrydan**

Yn y tabl o dreuliau cyffredin isod, mae 'cyfleustodau' yn cynnwys taliadau dŵr, nwy a thrydan. Dim ond os oes gennych chi ôl-ddyledion perthnasol mewn perthynas â'ch taliadau a chamau gorfodi'n cael eu cymryd yn eich erbyn y bydd modd ystyried biliau cyfleustodau mewn adolygiad caledi/cymhwysedd. Wedyn dim ond y taliadau sy'n cael eu gwneud i leihau'r ôl-ddyledion y byddwn yn eu caniatáu.

Pan wnaethom asesu eich cais am gymorth cyfreithiol am y tro cyntaf, cafodd lwfans byw ei gynnwys yn eich asesiad modd, sy'n cynrychioli costau byw. Mae'r lwfans hwn yn cynnwys y taliadau a ddisgrifir uchod ac ni fyddwn yn ystyried hawliad pellach am gostau o'r fath wrth ystyried eich treuliau ychwanegol.

Mae'r lwfans byw yn cynnwys treuliau costau byw mewn perthynas â'r canlynol:

- Bwyd a diodydd meddal
- Dillad ac esgidiau
- Tai*, tanwydd a phŵer
- Nwyddau a gwasanaethau ar gyfer y cartref
- Iechyd
- Trafnidiaeth
- Cyfathrebu
- Addysg (ac eithrio ffioedd ysgol)
- Trethi dŵr
- Premiymau yswiriant
- Nwyddau a gwasanaethau amrywiol

TYSTIOLAETH **Taliadau pensiwn**

Pan wnaethom asesu eich cais am gymorth cyfreithiol, defnyddiwyd lwfans byw blynyddol gennym. Mae hwn yn cynnwys taliadau pensiwn o hyd at 6% o gyflog. O ganlyniad, yr unig daliadau pensiwn y gallwch chi hawlio ar eu cyfer yw'r rhai sy'n fwy na 6% o gyflog.

Er mwyn i'r costau a ddisgrifir gennych chi ar y CRM16 gael eu hystyried, mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn talu'r treuliau hyn. Mae tabl o'r treuliau mwyaf cyffredin a'r gofynion tystiolaeth i'w cael isod.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch treuliau ychwanegol cyn y gellir eu hystyried fel rhan o'ch adolygiad caledi/cymhwysedd. Mae'r gofyniad tystiolaeth yn dibynnu hefyd ar y canlynol mewn perthynas â'ch Treial:

Ydy'r treial yn cael ei gynnal yn Llys y Goron (Ditiadwy yn unig a neillffordd ar ôl

 Hawlfraint y Goron 2014

traddodi)

**neu** Ydy’r treial yn cael ei gynnal yn y llys ynadon (mae hyn yn cynnwys achosion traddodi ar gyfer dedfryd ac achosion apêl).

Mae’r tabl isod yn rhoi manylion y dystiolaeth sy’n ofynnol ar gyfer gwahanol fathau o dreuliau a ystyrir gennym ni. Os nad yw pob un o’ch treuliau ar y rhestr hon, holwch eich cyfreithiwr pa dystiolaeth ddylech chi ei chyflwyno.

**Sylwer: nid yw cyfriflenni banc yn dystiolaeth ddigonol o ddyledion fel cardiau credyd a benthyciadau. Dylech ddarparu cyfriflenni cardiau credyd neu gytundebau benthyciadau sy’n dangos yr isafswm taliad misol, sawl taliad sydd gennych ar ôl i’w dalu ac, yn achos benthyciad, pryd y dechreuodd y benthyciad.**

**Llythyrau gohirio**

Os nad yw eich treial yn cael ei gynnal yn Llys y Goron, mae’n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth sy’n dangos yn glir eich bod wedi gwneud ymdrech i leihau neu ohirio eich taliadau. Bydd yn rhaid inni gael llythyr gan y sawl sy'n rhoi'r benthyciad yn dangos ei fod wedi ystyried eich cais a'i fod:

yn anfodlon lleihau neu ohirio'r taliadau

**neu** ei fod wedi newid eich trefniant talu – dylai’r llythyr nodi cyfnod y gohirio a/neu'r gostyngiad a faint y mae disgwyl i chi ei dalu.

**Prawf o daliad**

Os nad yw eich treial yn cael ei gynnal yn Llys y Goron, bydd yn ofynnol i chi ddangos eich bod yn talu'r treuliau ychwanegol sydd wedi'u rhestru yn eich cais. Edrychwch yn y tabl isod am y gofynion perthnasol o ran tystiolaeth ar gyfer y gwahanol fathau o wariant.

Mae copi o ddogfen yn ddigon, ond bydd rhaid i gopïau fod wedi’u llofnodi a’u dyddio gan naill ai eich cyfreithiwr neu swyddog y llys, i dystio eu bod yn gopi gonest o’r ddogfen wreiddiol.

| Traul gyffredin | Y dystiolaeth ofynnol os nad yw eich achos yn cael ei gynnal yn Llys y Goron | Y dystiolaeth ofynnol os yw eich achos yn cael ei gynnal yn Llys y Goron |
|---|---|---|
| Benthyciad diwarant | Cytundeb y benthyciad, llythyr gohirio a phrawf o daliad | Cytundeb y benthyciad sy’n dangos yr isafswm taliad a’r dyddiad y dechreuodd y cytundeb |
| Benthyciad diogel | Cytundeb y benthyciad a phrawf o daliad | Cytundeb y benthyciad sy’n dangos yr isafswm taliad a’r dyddiad y dechreuodd y cytundeb |
| Benthyciad car | Cytundeb cyllid/benthyciad, llythyr gohirio a phrawf o daliad | Cytundeb cyllid/benthyciad sy’n dangos yr isafswm taliad a’r dyddiad y dechreuodd |


Hawlfraint y Goron 2014

| | | |
|---|---|---|
| | | y cytundeb |
| Trefniant Gwirfoddol Unigol (TGU) | Cytundeb y TGU, a phrawf o daliad | Cytundeb y TGU |
| Taliadau cardiau credyd a chardiau siop | Copi o fil, llythyr gohirio a thystiolaeth o daliad | Copi o fil neu gyfriflen sy'n dangos yr isafswm taliad |
| Dyledion eraill | Tystiolaeth o ddyled a chynllun ad-dalu a thystiolaeth ei fod yn cael ei dalu ynghyd â llythyr gohirio yn dangos na chaiff y ddyled ei gohirio | Tystiolaeth o ddyled a chynllun ad-dalu |
| Dirwyon | Tystiolaeth o ddirwy sy'n dangos y taliadau sy'n weddill a phrawf o daliad | Tystiolaeth o ddirwy sy'n dangos y taliadau sy'n weddill |
| Ôl-ddyledion Rhent/Treth Gyngor | Llythyr(au)/cyfriflenni yn cadarnhau'r ôl-ddyledion, cynllun ad-dalu a thystiolaeth o daliad | Tystiolaeth o ddyled a chynllun ad-dalu |
| Ôl-ddyledion cyfleustodau | Llythyr yn dangos bod yr ôl-ddyledion wedi mynd i asiantaeth orfodi/casglu a thystiolaeth eu bod yn cael eu talu | Tystiolaeth o ddyled a chynllun ad-dalu |
| Costau beili | Llythyr mynnu taliad a phrawf o daliad | Llythyr mynnu taliad sy'n dangos yr isafswm taliad a ganiateir, os yn berthnasol |
| Benthyciad myfyriwr | Slip cyflog diweddar sy'n dangos y swm a dalwyd | Slip cyflog diweddar sy'n dangos y swm a dalwyd |
| Gordaliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau | Tystiolaeth o ordaliad a bod cynllun ad-dalu ar waith, a thystiolaeth bod yr ad-daliadau'n cael eu gwneud | Tystiolaeth o ordaliad a bod cynllun ad-dalu ar waith |
| Morgais ar ail eiddo (nid busnes) | Cytundeb morgais a phrawf o daliad | Cytundeb morgais sy'n dangos yr isafswm taliad misol |
| Dyfarniad Llys Sirol | Llythyr y dyfarniad a thystiolaeth yn dangos bod yr amserlen talu wedi'i gwneud | Llythyr y dyfarniad a thystiolaeth o'r amserlen talu |
| Costau presgripsiwn y GIG neu gostau meddygol | Llythyr gan feddyg teulu a phrawf o daliad (os yw hyn yn berthnasol). | Llythyr gan feddyg teulu |


Hawlfraint y Goron 2014

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau pensiwn preifat | Tystiolaeth o’r swm sy’n cael ei dalu (er enghraifft, slip cyflog) a phrawf o daliad. | Tystiolaeth o’r swm sy’n cael ei dalu (er enghraifft, slip cyflog) |

Pan nodir ‘tystiolaeth o daliad’, mae’r dystiolaeth dderbyniol yn cynnwys cyfriflenni banc sy’n dangos yn glir y taliadau sydd wedi’u gwneud, neu gyfriflenni o’r benthyciad/ddyled yn dangos beth sydd wedi’i gredydu i’r cyfrif. Dylai fod yn dystiolaeth ddiweddar a dylai ddangos taliadau sydd wedi’u gwneud yn y cyfnod cyfrifo.

**Sylwer: ar gyfer Adolygiadau Cymhwysedd yn Llys y Goron a chaledi yn Llys y Goron, yn ogystal â darparu tystiolaeth o wariant ychwanegol a gafodd ei ddatgan ar CRM16, os ydym wedi cyfyngu ar unrhyw dreuliau yn y prawf modd, (e.e. costau tai, cynhaliaeth a gofal plant) bydd angen tystiolaeth arnom o'r treuliau hynny er mwyn caniatáu’r ffigur uwch wrth gyfrifo unrhyw gyfraniad incwm.**

4 (!) CANLLAWIAU **Gwybodaeth ychwanegol**

Defnyddiwch y cwestiwn hwn i ddweud unrhyw beth wrthym sydd heb ei gynnwys yng nghwestiynau 2 a 3 ac a fydd yn effeithio ar eich gallu i gyfrannu at gostau eich amddiffyniad. Er enghraifft, os dyledion yw eich treuliau a’r rheini i'w talu'n gyflym, eglurwch y dyledion yn eich ateb i’r cwestiwn hwn.

(!) TYSTIOLAETH Efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth ar gyfer unrhyw wybodaeth rydych chi’n ei nodi yn eich ateb i’r cwestiwn hwn.

5 (!) CANLLAWIAU **Datganiad gan eich partner**

Mae’r geiriau **‘yr wybodaeth ar y ffurflen hon’** yn cynnwys amgylchiadau pan nad yw’r ffurflen yn cynnwys unrhyw fanylion am amgylchiadau ariannol eich partner. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi a’ch partner (os yw’n berthnasol) gadarnhau’r wybodaeth sydd wedi’i darparu, hyd yn oed pan fo’r wybodaeth ar y ffurflen yn berthnasol i un ohonoch yn unig.

Os nad yw eich partner yn gallu llofnodi’r datganiad hwn, mae’n rhaid i chi nodi’r rheswm dros hynny ar ddiwedd cwestiwn 6.

6 (!) CANLLAWIAU **Datganiad gennych chi**

Mae’r geiriau **‘yr wybodaeth ar y ffurflen hon’** yn cynnwys amgylchiadau pan nad yw’r ffurflen yn cynnwys unrhyw fanylion am eich amgylchiadau ariannol chi. Felly, bydd yn rhaid i chi a’ch partner (os yw’n berthnasol) gadarnhau’r wybodaeth sydd wedi’i darparu ar y ffurflen, hyd yn oed pan fo’r wybodaeth ar y ffurflen yn berthnasol i un ohonoch yn unig.

8 (!) CANLLAWIAU **Manylion y cyfreithiwr sydd wedi cael cyfarwyddyd**

Dylai’r cyfreithiwr ateb y cwestiwn hwn ni waeth a yw’r achos yn cael ei gynnal mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron.

 Hawlfraint y Goron 2014

9 ⓘCANLLAWIAU **Costau**

Eich cyfreithiwr ddylai ateb y cwestiwn hwn pan fyddwch yn gwneud cais am adolygiad caledi yn y llys ynadon neu adolygiad cymhwysedd yn Llys y Goron. P**eidiwch â llenwi'r adran hon** pan mae eich cais yn ymwneud ag adolygiad caledi yn Llys y Goron.

**9.1 Costau'r cyfreithwyr**
**Cyfradd Fesul Awr**

Nodwch yn fras faint o amser yn eich barn chi a fydd yn cael ei dreulio ar waith paratoi a phresenoldeb, a sawl awr a fydd yn cael ei dreulio mewn gwrandawiadau.

Dylech ddefnyddio'ch cyfraddau preifat wrth ddatgan prisiau. Bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ystyried eich cyfraddau preifat yn erbyn cyfraddau hanesyddol yr AMC.

**Graddfa'r sawl sy'n ennill ffi**

Gan fod y gyfradd AMC berthnasol yn amrywio yn dibynnu ar raddfa'r cyfreithiwr, bydd angen ichi nodi graddfa'r sawl sy'n ennill ffi hefyd.

Hefyd, os yw'r gyfradd yr ydych yn ei datgan yn sylweddol uwch na chyfradd gyfatebol yr AMC, dywedwch wrthym yn 9.4 pam y gellir cyfiawnhau cyfradd mor uchel yn yr achos (eglurhad o gostau).

**Cost alldaliadau (*disbursements*)**

Rhowch amcangyfrif o gost unrhyw alldaliadau sy'n ofynnol a rhesymol yn eich barn chi.

Ar gyfer achosion caledi yn y llys ynadon, dylech gynnwys ffioedd y cwnsler gyda'r alldaliadau (ar gyfer adolygiadau cymhwysedd yn Llys y Goron rhowch gostau eiriolwyr yn 9.2).

**9.2 Costau'r Eiriolwr**

Dylai eich cyfreithiwr ateb y cwestiwn hwn dim ond pan fyddwch yn gwneud cais am adolygiad cymhwysedd yn Llys y Goron.

**Lefel eiriolwr**

Nodwch lefel yr eiriolwr, e.e. Eiriolwr Iau, Cwnsler y Frenhines ayb.

**Ffi Briffio**

Dylech gynnwys dadansoddiad o'r amser a dreulir ar baratoi cyn y treial, presenoldeb, cynadleddau a diwrnod cyntaf y treial.

**Taliadau dal ati**

Amcangyfrifwch gostau mynychu ar ail ddiwrnod y treial a diwrnodau dilynol.

**Alldaliadau (*disbursements*)**

Rhowch amcangyfrif o gost unrhyw alldaliadau gofynnol a rhesymol.

Os yw eich amcangyfrif o gostau eiriolwyr yn seiliedig ar gyfarwyddo mwy nag un eiriolwr neu Gwnsler y Frenhines neu'r ddau, nodwch y costau ar gyfer yr eiriolwr/eiriolwyr eraill yn 9.4, (Eglurhad o gostau); ac esboniwch pam mae angen y fath gynrychiolaeth ar yr achos.


Hawlfraint y Goron 2014

Bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ystyried cyfraddau fesul awr eiriolwyr yn erbyn cyfraddau fesul awr y VHCC.

**9.3 Cyfanswm y costau**

Ar gyfer Adolygiadau Cymhwysedd yn Llys y Goron yn unig – cyfanswm cost amcangyfrifon costau'r Cyfreithiwr a'r Eiriolwr.

Bydd yr amcangyfrif o gyfanswm y costau yn cael ei gymharu â Gorchmynion Costau Amddiffyn cyfartalog ar gyfer y math perthnasol o achos.

**9.4 Eglurhad o gostau**

Yn ogystal â llenwi adran Costau'r Cyfreithiwr a Chostau'r Eiriolwr ar y CRM16, rhaid i'r cyfreithiwr hefyd ddarparu rhagor o wybodaeth yn yr adran manylion costau yn nodi enw'r llys lle bydd yr achos yn cael ei gynnal ac yn esbonio pam mae'r achos angen yr amcangyfrif o oriau, alldaliadau, graddfa'r sawl sy'n ennill y ffi a lefel yr eiriolwr. Dylai'r datganiad hwn gynnwys dadansoddiad o'r oriau a dreuliwyd ar yr achos e.e. oriau paratoi, neu amser a dreuliwyd gyda thystion, maint y datgelu, hyd y treial (h.y. treial un diwrnod)

Disgwylir i gyfreithiwr yr ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth orau bosibl am gostau tebygol achos ar sail ei wybodaeth am yr achos a'i brofiad proffesiynol mewn achosion ymgyfreitha tebyg.

Ar gyfer adolygiadau cymhwysedd yn Llys y Goron, bydd yr amcangyfrif o gyfanswm y costau yn cael ei gymharu â Gorchmynion Costau Amddiffyn hanesyddol cyfartalog ar gyfer y math perthnasol o achos.

Os bydd yr amcangyfrif o gyfanswm y costau yn llawer mwy na'r Gorchymyn Costau Amddiffyn cyfartalog ar gyfer y math o achos, gwnewch yn siŵr fod eglurhad clir wedi cael ei roi.

 Hawlfraint y Goron 2014